

# Taliadau Uniongyrchol

## Eich Bywyd – Eich Dewis

**Chi sy'n dewis sut i dderbyn y cmorth sydd ei angen arnoch**

Tachwedd 2019

Am gopi o'r daflen hon mewn fformatau eraill megis Braille, print bras neu dâp sain, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 03000 858 858. Mae fersiwn Hawdd ei Darllen ar gael hefyd.

### **Beth yw Taliadau Uniongyrchol?**

Os ydych yn cael anhawster rheoli agweddau ar eich bywyd oherwydd eich oedran, anabledd neu am eich bod yn gofalu am rywun, efallai y gall Cyngor Sir y Fflint roi arian i chi i drefnu cymorth sy'n iawn i chi. Caiff hyn ei alw'n Daliad Uniongyrchol.

Gallwch ddefnyddio'ch Taliad Uniongyrchol i drefnu cymorth sy'n iawn i'ch anghenion unigol chi, eich ffordd o fyw a'ch amgylchiadau personol. Mae hyn yn golygu y gallwch fod yn greadigol gyda'ch cymorth os ydych yn dewis.

Mae derbyn Taliad Uniongyrchol yn golygu y gallwch gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y cymorth sydd ei angen arnoch, a gallwch wneud trefniadau llawer mwy hyblyg na'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor.

Mae pobl yn Sir y Fflint yn defnyddio'u Taliadau Uniongyrchol i drefnu pethau fel:

- Cymorth â bywyd bob dydd a gweithgareddau
- Cymorth â gofal personol
- Gofal seibiant i roi seibiant i'ch Gofalwr
- Cyfuno'ch taliadau uniongyrchol â phobl eraill i wneud pethau gyda'ch gilydd
- Offer a thechnoleg i fod yn fwy annibynnol
- Cymorth sy'n helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd
- Cymorth i fynd allan i'r gymuned
- Cymorth i gael mynediad at addysg neu alwedigaeth

Mae mwy a mwy o bobl yn dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud wrthym fod y trefniadau hyblyg y maent wedi'u trefnu wedi newid eu bywydau er gwell.

Mae derbyn Taliad Uniongyrchol yn ddewis personol a'r gobaith yw y bydd yn eich galluogi i gyflawni gwell safon bywyd. Mae Cyngor Sir y Fflint yn deall fod cymryd rheolaeth a phenderfynu derbyn Taliad Uniongyrchol yn gallu bod yn benderfyniad mawr i rai pobl, a gall rhywfaint o'r wybodaeth a gewch ymddangos yn ddryslyd ar y dechrau.

Rydym am sicrhau fod yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch gennych i wneud dewisiadau sy'n iawn i chi.

Mae gennym dîm Taliadau Uniongyrchol profiadol yn y cyngor sydd yno i'ch cynorthwyo ag unrhyw ymholiadau sydd gennych neu wybodaeth sydd ei angen arnoch.

Mae Ymddiriedolaeth Penderels yn sefydliad sy'n arbenigo mewn cefnogi pobl sy'n dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol. Bydd Ymddiriedolaeth Penderels yn rhoi cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen arnoch i deimlo'n hyderus i reoli'ch Taliadau Uniongyrchol eich hun.

Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn gysylltiedig â budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol. Ni fydd Taliadau Uniongyrchol yn effeithio ar eich budd-daliadau mewn unrhyw ffordd.

Cofiwch, rhaid i unrhyw gymorth a drefnwch eich helpu i gyflawni'r nodau yr ydych wedi'u cytuno â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint – caiff y rhain eu hysgrifennu yn eich cynllun cymorth.

Dim ond un opsiwn cymorth yw Taliadau Uniongyrchol: gall y cyngor drefnu gwasanaethau ar eich cyfer os mai dyna fyddai orau gennych. Mae nifer o bobl yn dewis cymysgedd o Daliadau Uniongyrchol a gwasanaethau a drefnwyd gan y Cyngor.

### **Pwy all dderbyn Taliad Uniongyrchol?**

Os oes angen help ychwanegol arnoch i reoli agweddau ar eich bywyd oherwydd effeithiau:

- Henaint
- Anabledd corfforol neu ddysgu
- Anhawster iechyd meddwl
- Salwch hirdymor
- Cyfrifoldeb rhiant am blentyn ag anabledd
- Cyfrifoldebau gofalu

Mae'n bosibl y gallwch gael Taliad Uniongyrchol i drefnu'r cymorth sydd ei angen arnoch. Fel arfer gall pobl 16 oed ac yn hŷn dderbyn Taliad Uniongyrchol. Os ydych dan 16 oed gellir talu'r taliad uniongyrchol i'ch rhiant/rhieni neu warcheidwa(i)d cyfreithiol.

### **Sut allaf gael Taliad Uniongyrchol?**

I gael Taliad Uniongyrchol bydd angen asesiad arnoch o'ch anghenion cymorth.

Os oes gennych weithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal, cysylltwch â nhw.

Os ddim, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar

03000 858 858 neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ar 01352 701000.

Os ydych yn gymwys i dderbyn cymorth gan Gyngor Sir y Fflint bydd ymarferydd gofal cymdeithasol yn cytuno ar gynllun gyda chi ynglŷn â sut y gellir diwallu'ch anghenion a'ch nodau. Gelwir hwn yn Gynllun Gofal neu Gymorth.

Bydd yn siarad gyda chi am y ffyrdd y gallwch ddewis defnyddio'ch Taliad Uniongyrchol a bydd hefyd yn cytuno ar gyfanswm yr arian y byddech yn ei dderbyn i roi'ch Cynllun Cymorth ar waith.

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich cynorthwyo i benderfynu sut y caiff eich Taliad Uniongyrchol ei reoli.

Os ydych eisoes wedi cael asesiad ac yn derbyn gwasanaethau'n barod, gallwch wneud cais i newid i Daliadau Uniongyrchol yn lle. Siaradwch â'ch ymarferydd gofal cymdeithasol neu rywun arall o'r cyngor, neu Ymddiriedolaeth Penderels.

Os ydych wedi cael gwybod nad ydych yn gymwys i dderbyn cymorth, ni fydd modd i ni roi Taliad Uniongyrchol i chi.

### **Sut mae Taliad Uniongyrchol yn cael ei reoli?**

Yn ogystal â'r dewis a'r hyblygrwydd y mae Taliadau Uniongyrchol yn eu rhoi i chi, mae gofyn i chi hefyd fod yn gyfrifol am wario'r arian yn ddoeth. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â chi i sicrhau fod y trefniadau'n iawn i chi.

Os ydych yn dewis cyflogi rhywun fel Cynorthwy-ydd Personol, bydd gennych gyfrifoldebau cyflogwr arferol. Mae cymaint o gymorth a help ag sydd ei angen arnoch ar gael i ddeall a rheoli'r rhain, felly peidiwch â phoeni o gwbl.

### **Beth os bydd fy anghenion yn newid?**

Os bydd eich anghenion yn newid efallai y gallwch newid eich Taliad Uniongyrchol. Os ydych yn canfod nad Taliadau Uniongyrchol yw'r opsiwn cywir i chi wedi'r cyfan, gallwch drefnu fod eich gwasanaethau'n cael eu trefnu gan y cyngor.

## **Pa gymorth sydd ar gael i mi?**

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn gweithio ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Penderels. Mae eu holl wasanaethau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol am ddim i chi.

Byddant yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i chi ynghyd â help ymarferol megis recriwtio a chyflogi staff neu drefnu cymorth drwy asiantaeth gofal ac ati.

Cysylltwch â nhw am wybodaeth bellach:

Ymddiriedolaeth Penderels, Ystafell 4, Parc St Andrews,  
Lôn y Frenhines, Yr Wyddgrug, CH7 1XB  
Ffôn: 01352 706235 Ffacs: 01352 706236  
E-bost: [flintshire@penderelestrust.org.uk](mailto:flintshire@penderelestrust.org.uk)  
[www.penderelestrust.org.uk](http://www.penderelestrust.org.uk)

## **A fydd raid i mi dalu unrhyw beth?**

Mae'n bosibl y codir tâl arnoch am rywfaint o'r cymorth a roddir i chi. Os bydd gofyn i chi dalu unrhyw swm, bydd yr un fath boed am gymorth sy'n cael ei drefnu i chi gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu os ydych yn dewis Taliadau Uniongyrchol.

## **Beth ddylwn ei wneud os wyf am ganfod mwy am Taliadau Uniongyrchol?**

Siaradwch â'ch gweithiwr cymdeithasol neu ffoniwch:

Mark Cooper (Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol)  
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NN  
Rhif ffôn: 01352 701101  
E-bost: [Mark.Cooper@flintshire.gov.uk](mailto:Mark.Cooper@flintshire.gov.uk)  
[www.siryfflint.gov.uk/taliadauuniongyrchol](http://www.siryfflint.gov.uk/taliadauuniongyrchol)

neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar 03000 858 858  
neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ar 01352 701000.

## **Pobl sydd yn yr ysbyty:**

Gofynnwch am gael gweld Gweithiwr Cymdeithasol Ysbyty Sir y Fflint neu ffoniwch 03000 858 858.

## **Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall**

Mae taflenni gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys:  
“Codi Tâl am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol”  
Cerdyn Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint: ffoniwch 01352 701318

“Eich Hawl i Ganmol a Chwyno”.  
Ffoniwch 01352 803444 am gopi.  
Gallwch hefyd lawrlwytho copïau o’n gwefan ar  
[www.siryfflint.gov.uk/cymdeithasol](http://www.siryfflint.gov.uk/cymdeithasol)

## **Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS)**

Gwasanaeth sy’n cynnig cyngor annibynnol i ofalwyr nad ydynt yn cael eu talu: Ffôn: 01352 752525  
Gwefan: [www.carers.org/local/wales/flintshire](http://www.carers.org/local/wales/flintshire)

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

Cyf: A12